



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46800

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad Diogelwch Adeiladau diffiniad arfaethedig o adeilad risg uwch

Dyddiad cyhoeddi: 17 Chwefror 2023
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Mai 2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023

Trosolwg

Cyflwynodd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, becyn o newidiadau deddfwriaethol yn ymwneud â diogelwch adeiladau. O safbwynt Cymru mae'r Ddeddf yn cynnwys, ymysg darpariaethau eraill, newidiadau deddfwriaethol i sefydlu prosesau dylunio ac adeiladu newydd, goruchwyllo cymhwysedd y rheini sy'n gweithredu yn y system, a gwelliannau eraill i gefnogi'r broses gyffredinol o adeiladu adeiladau mwy diogel. Mae rhan allweddol o'r diwygiadau hyn yn cynnwys cyfundrefn reoleiddio newydd a mwy llym ar gyfer yr adeiladau hynny sydd yn cael eu nodi fel adeiladau risg uwch. Dyma'r ymgynghoriad ar y diffiniad o "adeilad risg uwch".

Sut i ymateb

Gallwch anfon eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn ar e-bost i:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad ar: "Diffiniad o Adeilad Risg Uwch."

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i:

Diffiniad o Adeilad Risg Uwch

Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Wrth ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad ac yn cynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yw'n berthnasol),
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad e-bost, a
- rhif ffôn cyswllt

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad,
cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth
Cymru drwy anfon e-bost i:
enquiries.brconstruction@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth:
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 8144

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad.....	7
Diben yr ymgynghoriad hwn.....	7
Sut bydd y diffiniad hwn yn cael ei ddefnyddio?.....	8
Cynigion	8
Defnydd.....	9
Eithriadau	10
Diffiniad o adeilad.....	10
Uchder a lloriau	10
Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	12

Cyflwyniad

1. Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, penododd Llywodraeth y DU y Fonesig Judith Hackitt i arwain adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân yn Lloegr. Yn ei hadroddiad, amlinellodd y Fonesig Judith Hackitt ddull gweithredu newydd o ran rheoli risgiau diogelwch tân a diogelwch strwythurol mewn adeiladau preswyl aml-feddiannaeth uchel iawn.
2. Datblygodd Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru Fap tuag at Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, ac ynddo ystyriwyd rhoi argymhellion adroddiad Hackitt ar waith yng Nghymru. Datblygwyd y cynigion hyn ymhellach yn y Papur Gwyn: Adeiladau mwy Diogel yng Nghymru (“y Papur Gwyn”) lle gosodwyd cynigion ar gyfer sut yr oeddem yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau yn ystod y camau dylunio, adeiladu a meddiannu. Eglurwyd ynddo y byddai'r newidiadau i'r system dylunio ac adeiladu yng Nghymru yn cael eu cyflwyno drwy Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.
3. Cyflwynodd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, becyn o newidiadau deddfwriaethol, y mae rhai ohonynt yn gymwys mewn perthynas â Chymru. O ran y cam dylunio ac adeiladu, o safbwynt Cymru mae'r Ddeddf yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol i sefydlu prosesau dylunio ac adeiladu newydd, goruchwyllo cymhwysedd y rheini sy'n gweithredu yn y system, a gwelliannau eraill i gefnogi adeiladu adeiladau mwy diogel yn gyffredinol. Mae rhan allweddol o'r diwygiadau hyn yn cynnwys cyfundrefn reoleiddio newydd a mwy llym ar gyfer yr adeiladau hynny sydd yn cael eu nodi fel “adeiladau risg uwch”. Mae pŵer gan Weinidogion Cymru, a gyflwynwyd gan adran 31 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022, i ddiffinio “adeilad risg uwch” at ddibenion y cam dylunio ac adeiladu.
4. Mae gwaith ar is-ddeddfwriaeth er mwyn hwyluso rhoi Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ar waith yng Nghymru yn mynd rhagddo.
5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cynigion ar gyfer y diffiniad o “adeilad risg uwch” sy'n hanfodol i ddiwygio cam dylunio ac adeiladu'r system Diogelwch Adeiladau. Nodwyd cynigion ar gyfer y mathau o adeiladau a fyddai o fewn cwrpas y gyfundrefn newydd yn y Papur Gwyn ac Ymateb y Llywodraeth. Bellach rydym yn cynnig cynnwys cartrefi gofal ac ysbytai o fewn cwrpas y gyfundrefn newydd.

Diben yr ymgynghoriad hwn

6. Bydd y gyfundrefn reoleiddio newydd, fwy llym yn berthnasol i adeiladau sy'n dod o fewn y diffiniad o “adeilad risg uwch”. Bydd y diffiniad hwn yn berthnasol i'r cam dylunio ac adeiladu ac i unrhyw waith ar adeiladau sy'n bodoli eisoes sydd angen cydsyniad rheoliadau adeiladu. Mae'r gwaith o ddiwygio'r gyfundrefn diogelwch adeiladau yn ystod y cam meddiannu yn cael ei wneud ar wahân, a gallai'r categorïau o adeiladau o fewn y gyfundrefn honno fod yn wahanol.

7. Mae set o reoliadau drafft yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad er mwyn helpu i ddeall y cynigion.
8. Manylir ar nifer o gwestiynau o fewn y papur ymgynghori hwn lle'r ydym yn chwilio am eich mewnbwn. Darperir papur ymateb ar wahân i chi roi eich ymatebion i'r cwestiynau hyn pe baech yn dymuno gwneud hynny. Lle bo'n bosibl byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich sylwadau.

Sut bydd y diffiniad hwn yn cael ei ddefnyddio?

9. Bydd y diffiniad yn cael ei ddefnyddio i gategoreiddio adeiladau sy'n dod o fewn cwmpas y gyfundrefn reoleiddio newydd, fwy llym o ran dylunio ac adeiladu. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer dylunio ac adeiladu "adeiladau risg uwch" yn cyflwyno'r mesurau canlynol:
 - **Rheoleiddiwr** Dim ond gwasanaethau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol fydd yn goruchwyllo'r broses o ddylunio ac adeiladu "adeilad risg uwch"
 - Bydd **Pyrth** yn darparu archwiliadau trwyadl o ofynion rheoliadau adeiladu, gan sicrhau bod diogelwch adeiladau yn cael ei ystyried yn ystod pob cam o ddylunio ac adeiladu.
 - Ei gwneud yn ofynnol i greu, storio a diweddarau '**llinyn aur**' o wybodaeth am adeilad drwy gydol cylch oes yr adeilad.
 - **Deiliaid dyletswydd** a fydd â chyfrifoldebau statudol ac atebolrwydd pan fo adeiladau'n cael eu dylunio a'u hadeiladu.
 - Gofynion **cymhwysedd**, bydd yn rhaid i'r rheini sy'n cael eu penodi i weithio ar brosiect risg uwch fod â'r sgiliau, y dealltwriaeth, y profiad a'r ymddygiadau perthnasol angenrheidiol i gyflawni'r rôl. Mae manylion am ofynion cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu yn ein hymgyngoriadau eraill ar gofrestru Arolygwyr Adeiladu.

Cynigion

10. Cynigir bod "adeilad risg uwch" yn cael ei ddiffinio fel adeilad sydd o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf 7 llawr (Gweler Ffigur 1 a Ffigur 2 isod) sydd hefyd yn cynnwys o leiaf un uned breswyl neu sy'n ysbyty neu'n gartref gofal.
11. Er mwyn sicrhau bod cwmpas y gyfundrefn fwy llym yn seiliedig ar ffactorau risg gwrthrychol a mesuradwy rydym wedi dewis metrigau uchder / lloriau a defnydd er mwyn diffinio "adeilad risg uwch". Mae uchder a lloriau yn fetrigau a ddefnyddir yn rheolaidd o fewn Rheoliadau Adeiladu cyfredol. Mae hyn yn darparu eglurder wrth benderfynu a yw adeilad yng nghwmpas y gyfundrefn newydd ai peidio. Rydym am sicrhau bod llymder cymesur yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â diogelwch strwythurol a diogelwch tân.

12. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau yn diffinio termau sy'n cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn. Gellir dod o hyd i'r manylion llawn yn y rheoliadau drafft a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn dymuno gofyn cwestiynau posibl am rai o'r termau hyn ac felly rydym wedi cynnwys y termau fel y maent wedi eu drafftio yn y rheoliadau isod.

13. Mae rheoliad 3 y rheoliadau drafft yn nodi:

Ystyr "uned breswyl" ("*residential unit*") yw annedd neu unrhyw uned lety arall a ddefnyddir gan un neu fwy o bersonau i fyw a chysgu ynddi neu ynddo ac mae'n cynnwys ystafell mewn hostel, ystafell mewn neuadd breswyl neu lety arall ar gyfer myfyrwyr neu ddisgyblion, ac ystafell mewn cartref plant;

Defnydd

14. Ymgynghorwyd yn flaenorol ar y mathau o adeiladau sydd i'w cynnwys ac i'w heithrio o gwmpas y gyfundrefn newydd drwy'r Papur Gwyn. Ers hynny mae'r diffiniad a gynigir wedi ei adolygu i adlewyrchu tystiolaeth ar risg gwahanol fathau o adeiladau.

15. Unedau preswyl sydd â'r risg uchaf o dân o hyd ac felly maent yn parhau'n rhan greiddiol o'r gyfundrefn newydd. Rydym yn cynnig bod adeilad uwchben y trothwy uchder/lloriau sy'n cynnwys uned breswyl unigol hefyd yn cael ei gynnwys o fewn y cwmpas. Byddai hyn yn golygu bod adeiladau amldefnydd hefyd yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn newydd os ydynt yn cynnwys uned breswyl.

16. Rydym yn cynnig symud o ddwy uned breswyl i un uned breswyl, ac mae'r newid hwn yn cael ei gynnig er mwyn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer cladin llosgadwy a hefyd i ystyried y prif risg o dân pan fo pobl yn cysgu ar y safle. Mae'r risg cysgu yn gysylltiedig ag annedd unigol ac nid yw'n gyfyngedig i adeilad gyda dwy uned neu fwy.

17. Ers ymgynghoriad y Papur Gwyn, mae'r diffiniad arfaethedig o "adeilad risg uwch" wedi ei ymestyn er mwyn cynnwys cartrefi gofal ac ysbytai. Mae eu cynnwys hwy yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses graffu ar gyfer yr hyn sydd bellach yn Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022. Mae cynnwys ysbytai a chartrefi gofal yn sicrhau bod "adeiladau risg uwch" (hy y rhai sy'n cyrraedd y trothwy uchder/lloriau) y gallant fod wedi eu meddiannu gan bobl â symudedd cyfyngedig yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r gyfundrefn newydd. Cynigir mai dim ond os oes ganddo o leiaf un gwely a fwriedir i'w ddefnyddio gan berson sydd wedi ei dderbyn i'r safle ar gyfer arhosiad dros nos y bydd ysbyty yn dod o fewn cwmpas.

Eithriadau

18. Rydym yn cynnig bod y rheoliadau yn diffinio adeiladau penodol, a fyddai fel arall yn bodloni'r meini prawf, sydd i'w heithrio o'r diffiniad o "adeiladau risg uwch". Rhestrir y rhain yn Rheoliad 6. Yr adeiladau sydd wedi eu heithrio yw:
 - sefydliadau preswyl diogel (e.e. carchardai);
 - sefydliadau hamdden dros dro (e.e. gwestai); a
 - mangreoedd milwrol (e.e. barics milwrol).
19. Rydym yn cynnig eithrio sefydliadau hamdden dros dro gan fod y rhain yn gyffredinol, yn eiddo a reolir yn weithredol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mewn rhai amgylchiadau bod newid yn y ffordd y mae sefydliadau o'r fath yn cael eu rheoli, er enghraifft, derbynfa awtomatig/gwasanaethau gofalwr.
20. Rydym yn cynnig eithrio sefydliadau preswyl diogel gan fod ystyriaethau diogelwch penodol gan yr adeiladau hyn y gellid bod angen eu hystyried, ac mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder drefniadau diogelwch adeiladau a diogelwch tân eu hunain. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r rhain gael eu cynnal.
21. Rydym hefyd yn cynnig eithrio mangreoedd milwrol oherwydd mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn eu trefniadau diogelwch adeiladau a diogelwch tân eu hunain, ac ystyriaethau diogelwch penodol y mae angen eu hystyried. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r rhain gael eu cynnal. Rydym ar ddeall y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi elfennau newydd y gyfundrefn newydd ar waith yn eu trefniadau.

Diffiniad o adeilad

22. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau yn diffinio ystyr 'adeilad'. Y cynnig yw bod y rheoliadau'n defnyddio'r diffiniad a ganlyn:

Mae "adeilad" ("*building*") yn cynnwys unrhyw strwythur neu adeiladwaith, ac unrhyw ran o adeilad, fel y'i diffinnir yn y modd hwnnw, ond nid yw'n cynnwys cyfarpar neu beiriannau a gynhwysir mewn adeilad fel y'i diffinnir gan Ddeddf Adeiladu 1984"

23. Rydym yn cynnig y diffiniad hwn gan ei fod yn ddiffiniad sefydledig a gydnabyddir yn y sector ac yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gwaith adeiladu.

Uchder a lloriau


24. Rydym yn cynnig bod y rheoliadau hefyd yn diffinio sut y dylid mesur adeiladau er mwyn deall a ydynt yn cyrraedd y trothwy gofynnol i fod yn ddarostyngedig i

ofynion mwy llym y gyfundrefn newydd. Rydym wedi dewis cyflwyno dau brawf ar gyfer mesur er mwyn atal camddefnyddio system; sef uchder a lloriau.

- Rydym yn cynnig nodi bod uchder adeilad i'w fesur o lefel y ddaear at arwyneb llawr uchaf, llawr uchaf yr adeilad (ac eithrio ardaloedd cyfarpar pen to ac unrhyw lawr uchaf sy'n cynnwys peiriannau neu ystafelloedd cyfarpar yn unig (Gweler Ffigur 1).

Ffigur 1: Uchder llawr uchaf mewn adeilad


Nid yw uchder y llawr uchaf yn cynnwys ardaloedd cyfarpar pen to ac unrhyw loriau uchaf sy'n cynnwys ystafelloedd cyfarpar yn unig.



- Rydym hefyd yn cynnig bod y rheoliadau yn darparu ffordd o bennu nifer y lloriau mewn adeilad, er mwyn penderfynu a ydynt yn cyrraedd y trothwy 7 llawr gofynnol er mwyn bod yn ddarostyngedig i ofynion y gyfundrefn newydd fwy llym ai peidio.
- Rydym yn cynnig nodi bod unrhyw lawr sydd o dan lefel y ddaear i'w ddiystyru. Mae unrhyw lawr mesanîn i'w drin fel llawr os yw ei arwynebeddau llawr mewnol yn o leiaf 50% o arwynebedd llawr mewnol y llawr mwyaf yn yr adeilad nad yw o dan lefel y ddaear. Caiff llawr ei drin fel un sydd o dan lefel y ddaear os yw unrhyw ran o arwyneb gorffenedig nenfwd y llawr o dan lefel y ddaear yn union gerllaw'r adeilad. Rydym hefyd yn bwriadu nodi y dylid cyfrif lloriau o ochr yr adeilad sy'n rhoi'r nifer mwyaf o loriau ichi (gweler Ffigur 2).
- Mae'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio gan eu bod eisoes wedi eu sefydlu yn unol â Dogfen Gymeradwy B yn Rheoliadau Adeiladu 2010.

Ffigur 2: Nifer y lloriau mewn adeilad

Er mwyn cyfrif nifer y lloriau mewn adeilad, neu mewn rhan ar wahân o'r adeilad, dylid cyfrif o'r safle sy'n rhoi'r nifer uchaf o loriau ac eithrio unrhyw isloriau.



Nodiadau:

Mewn adeiladau lle mae pobl yn ymgynnull, mae oriel yn cael ei chynnwys fel llawr, ond nid os mai oriel lwytho, oriel hedfan, grid llwyfan, pont oleuo neu unrhyw oriel a ddarperir at ddibenion tebyg yw hi, neu ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio.

Mewn adeiladau grŵp at ddibenion eraill, ni chaiff orielau eu cyfrif fel llawr.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

29. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon ynnddi ei hun yn creu goblygiad o ran cost. Bydd y costau'n cael eu creu pan fydd deddfwriaeth gysylltiedig yn y dyfodol, sy'n cynnwys gofynion manwl y gyfundrefn well ar gyfer adeiladau risg uwch, yn cael eu gwneud. Gan y bydd y ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar ymgynghori ar y diffiniad er mwyn diffinio cwmpas y gyfundrefn, bydd y diffiniad yn effeithio ar faint y costau.
30. Rydym yn dymuno cael eich barn ar oblygiadau posibl o ran cost y gyfundrefn yn y dyfodol o ganlyniad i'r diffiniad hwn. Nodwyd manylion y gyfundrefn arfaethedig a'i chostau yn yr Asesiad o'r Effaith Economaidd a gynhyrchwyd ar gyfer elfennau dylunio ac adeiladu'r Bil Diogelwch Adeiladau ar gyfer Cymru. Gellir dod o hyd i'r asesiad yma [Bil Diogelwch Adeiladu: asesiadau effaith | LLYW.CYMRU](#).